

PWYLLGOR ARDAL DWYFOR

12/12/16 (5.20PM – 6.20PM)

Presennol:- Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd y cyfarfod hwn)

Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Anwen Davies, Aled Evans, Aled Wyn Jones, W. Gareth Roberts, Angela Ann Russell, Hefin Underwood, Gruffydd Williams, Owain Williams ac R. H. Wyn Williams.

Swyddogion:- Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Hefyd: Joanne Parry (Rheolwr Siopau Gwynedd, Galw Gwynedd a'r Gwasanaeth Cofrestru) ar gyfer eitem 1 isod.

Ymddiheuriadau:- Y Cynghorwyr Simon Glyn, E. Selwyn Griffiths, John Brynmor Hughes, Michael Sol Owen, Peter Read a Eirwyn Williams.

1	Cyflwyniad ar waith Galw Gwynedd, Y Ganolfan Gyswllt ym Mhenrhyndeudraeth Derbyniwyd cyflwyniad gan Reolwr Siopau Gwynedd, Galw Gwynedd a'r Gwasanaeth Cofrestru. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau.	
	Pwynt Gweithredu: <ul style="list-style-type: none">• Cyfleu diolchiadau'r aelodau am waith staff y Ganolfan Gyswllt.	JP
2	Trefniadau Etholiadau Llywodraeth Leol – Mai 2017 Cyflwynwyd adroddiad gan Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol er mwyn codi ymwybyddiaeth Aelodau o'r trefniadau sy'n cael eu datblygu ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol 2017. Tynnwyd sylw'r Aelodau at y sesiynau sydd wedi eu trefnu ymhob un o'r tair ardal ym mis Ionawr 2017. Gofynnwyd i'r aelodau adnabod grwpiau/rhwydweithiau lleol y dylid gohebu yn benodol i hyrwyddo gwybodaeth.	
	Pwyntiau Gweithredu: <ul style="list-style-type: none">• Darparu rhestr o enwau a rhifau cyswllt swyddogion i	

	<p>aelodau ar ôl etholiad 2017 ac ystyried nodi dyddiau gweithio swyddogion yn ogystal.</p> <ul style="list-style-type: none">• Holi aelodau sydd wedi datgan nad ydynt am sefyll etholiad o ran grwpiau/rhwydweithiau lleol y dylid gohebu yn benodol i hyrwyddo gwybodaeth.	<p>BA / AEJ</p> <p>AEJ</p>
--	---	----------------------------